**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 14 Hydref 2021 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R C Stewart | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | |
| Jonathan Burnes | |
| Karen Jones | Prif Weithredwr |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Chris Moore | |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Phil Ryder | Portfolio Management Office Manager |
| Wendy Walters | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

**1 Ethol Cadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas Ranbarth Bae Abertawe.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Bu'r Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu.**

**2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganwyd y buddiannau canlynol;

Chris Foxall – Cofnod Rhif 6 - Adolygiad Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd – budd personol a rhagfarnol. Gadawodd Chris Foxall y cyfarfod wrth i eitem 6 gael ei hystyried.

Steve Wilks – Cofnod Rhif 7 - Achos Busnes Campysau Bargen Ddinesig Bae Abertawe - cysylltiad personol.

**3 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** llofnodi a chymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 a 28 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

**4 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

**5 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**6 Adolygiad Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer enwebiadau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

**Penderfynwyd:**

1) Penodi Chris Foxall yn Gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd; ac
2) Amanda Davies yn Is-gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

**7 Achos Busnes Campysau Bargen Dinas Bae Abertawe.**

Darparodd Keith Lloyd (Arweinydd Prosiect/Uwch-berchennog Cyfrifol) adroddiad/gyflwyniad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes Amlinellol y Gwyddorau Bywyd, Llesiant a Chwaraeon i'w gyflwyno i Lywodraethau'r DU a Chymru gyda'r bwriad o ddefnyddio gwerth £15m o fuddsoddiad cyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Achos Busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU a Chymru yn ffurfiol.

**8 Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau - Cais am newid y matrics arloesedd.**

**Penderfynwyd** ystyried gohirio'r adroddiad tan y cyfarfod nesaf.

**9 Adroddiad ar Brif Bwyntiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Darparodd Phillip Ryder (Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe) ddiweddariad ‘er gwybodaeth’ ar gynnydd rhaglenni/prosiectau sy’n rhan o Bortffolio Bargen Ddinesig Abertawe.

Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor ac amlinellodd y cynnydd mewn perthynas â'r canlynol:

- Ymgysylltu â busnesau

- Yr Egin.
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau.
- Pentre Awel.
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
- Isadeiledd digidol.
- Prosiect Morol Doc Penfro.
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.
- Sgiliau a doniau.
- Campysau BDdBA.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Ryder am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth a mynegodd ei ddiolch.

## 10 Adroddiad Adolygiad Gateway Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r Diweddaraf am y Cynllun Gweithredu.

Cyflwynodd Ian Williams (Rheolwr Datblygu Portffolio BDdBA) adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i Argymhellion Adolygiad Gateway 0.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Adolygiad Gateway (y manylir arno yn Atodiad A) fel yr ymateb i Argymhellion Adolygiad Gateway 0 (manylir arno yn Atodiad B).

## 11 Strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd.

Cyflwynodd Richard Arnold (Rheolwr Cyllid Dinas-ranbarth Bae Abertawe) y Strategaeth Gwrth-Dwyll a Gwrth-lygredd ar gyfer Bargen Dinas Bae Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd.

## 12 Monitro Ariannol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2020/21 - Sefyllfa Canlyniad Rhagolwg.

Cyflwynodd Richard Arnold (Rheolwr Cyllid Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad diweddaru am sefyllfa ariannol ddiweddaraf Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd :**

1) Y bydd y Cyd-bwyllgor yn adolygu’r adroddiad diweddaru monitro ariannol.

## 13 Canllaw Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer y Gymraeg.

Cyflwynodd Amanda Burns (Uwch-swyddog Cymorth Portffolio) adroddiad a oedd yn manylu ar Ganllawiau Cymraeg Portffolio BDdBA.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r arweiniad a nodwyd gan CSRhP BDdBA (fel y nodir yn Atodiad A).

**14 Protocol Cyfarfodydd Bwrdd Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Jonathan Burnes, Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn manylu ar Brotocol Cyfarfod Bwrdd Llywodraethu BDdBA.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo protocol cyfarfodydd Bwrdd Llywodraethu BDdBA.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.27 am

**Cadeirydd**